# *Cyngor Tref Llandeilo Fawr*

# *Llandeilo Fawr Town Council*

**Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 10fed Hydref, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.05 pm**

**Presennol:** Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Ros Bellamy, Cyng Roy Davies .
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

**Ymddiheuriadau :** Y Maer Cyng Richard Wallace, Dirprwy Faer Edward Thomas, Cyng Hugh Towns.

**Cof 169/ Hydref/ 07 Anfonebau i'w talu.**

Penderfynwyd y dylid talu'r anfonebau canlynol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Konica Minolta (tâl am wasanaeth) | £ | 15.24 | Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy<br>Eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. |
| Costau postio y Clerc | £ | 55.66 | Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy<br>Eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. |

**Cof 170/Hydref /07 Incwm a Dderbyniwyd Medi 2007**

Llog cyfrif cyfredol £ 1.43

**Cof 171/ Hydref / 07 Balansau'r Cyfrifon**

Cofnodwyd a **derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar gyllid y Cyngor:

| | |
|---|---|
| LTC CYFRIF CYFREDOL ( 30.9.07 ) | £ 13,334.81 |
| LTC CYFRIF CYNILO ( 27.9.07 ) | £ 63,675.36 |
| LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.9.07) | £ 2,799.01 |

**Cof 172/ Hydref / 07 Materion Ariannol Eraill**

1. Adroddiad Chwarterol ar y Gyllideb.
Cyflwynodd y Swyddog Cyllid ei adroddiad gan nodi fod y Cyngor ar y llwybr cywir i fod a gwarged erbyn diwedd y flwyddyn. Argymhellwyd gan y Cyng Ros Bellamy gan nad yw'r Swyddfa wedi'i gynnwys yn y gwaith adnewyddu sydd wedi'i wneud, y dylid rhoi £1000 i'r naill ochr er mwyn ei addurno a gosod gorchudd newydd dros y llawr. Eiliwyd hyn gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid. Bydd y Swyddog Technegol yn chwilio am amcan brisiau ar gyfer y gwaith. Gofynnwyd i'r Clerc siarad â Mr Ken Murphy o Cambria mewn perthynas â'r defnydd o lanhawr i'r swyddfa.

Gofynnwyd i'r Swyddog Cyllid adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf gyda'i argymhellion ar gyfer trosglwyddo arian i'r cyfrif llog uchel.

2. Rhagolwg ar y Gyllideb am Dair Blynedd.
Rhoddodd y Swyddog Cyllid fanylion o'r rhagolygon a wnaed. Dywedodd y Swyddog Cyllid ei fod yn ymgynghori â'r WCVA mewn perthynas â'r cynnydd sy'n ddyledus i staff mewn ychwanegiadau ers Ebrill 2006. Argymhellwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies y dylid anfon llythyr wedi'i arwyddo gan y Maer at WCVA yn gofyn iddynt weithredu'r cyflogai yn seiliedig ar y pwyntiau cynnydd newydd. Roedd pawb o blaid.

3. Arddangosfa Tân Gwyllt.
O ganlyniad i ofynion Iechyd a Diogelwch mae'n rhaid i bawb sy'n gyfrifol am gynnau'r tân gwyllt wisgo hetiau caled, menig lledr, fisorau llygaid a myffiau clustiau. Cytunwyd i roi £300 i'r naill ochr fel amcangyfrif o'r gost o brynu'r eitemau hyn.

**Cof 173/ Hydref/ 07 Gohebiaeth yn Ymwneud â Chyllid**

Nodwyd gan Oleuadau'r Ŵyl bod un o'r eitemau a archebwyd wedi newid ei ffurfwedd. Bydd yr eitem newydd yn costio £55 gyda TAW ar ben hynny, yn ychwanegol i'r swm a dalwyd eisoes. Roedd pawb o blaid talu'r swm.

**Cof 174/ Hydref / 07 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd am resymau arbennig, yn ôl penderfyniad y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15 pm.



Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk